

Pennod 14: Hysbysebion awyr agored

CYFLWYNIAD

- 14.1 Ceir deddfwriaeth sy'n ymwneud â hysbysebion ym Mhennod 3 o Ran 8 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth (drwy reoliadau) ar gyfer cyfyngu ar arddangos hysbysebion neu reoleiddio'r ffordd y cânt eu harddangos i'r graddau yr ymddengys ei bod yn fuddiol iddynt, er mwyn amwynder a diogelwch y cyhoedd. Y rheoliadau presennol yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 ("Rheoliadau 1992").¹
- 14.2 Mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer tri chategori o hysbysebion;
- 1) y rhai sydd wedi'u heithrio rhag rheolaethau;²
 - 2) y rhai sydd fel arfer yn cael "caniatâd tybiedig", y gall awdurdodau cynllunio ei dynnu'n ôl o dan amgylchiadau penodol;³
 - 3) y rhai y mae angen cael caniatâd penodol gan yr awdurdod cynllunio (neu, ar apêl, gan Weinidogion Cymru) ar eu cyfer.⁴
- 14.3 Fel gyda datblygiad heb awdurdod, yn ogystal â thorri rheolaeth gynllunio mae arddangos hysbyseb heb y caniatâd gofynnol yn drosedd atebolrwydd caeth.
- 14.4 Yn ein Papur Ymgynghori, gwnaethom rai awgrymiadau ynglŷn â'r diwygiadau posibl i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â hysbysebion awyr agored. Ar hynny, er bod y rhan fwyaf o'r Papur yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth sylfaenol, nodwyd gennym fod bron y cyfan o'r gyfraith sylwedd ar hysbysebu wedi'i chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Mae 25 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers cyflwyno Rheoliadau 1992 ac maent yn debygol o gael eu diweddarau maes o law⁵ ac, felly, rydym wedi gwneud rhai awgrymiadau ynglŷn â diwygiadau manwl y gellid eu gwneud iddynt pan fydd hynny'n digwydd.

¹ O.S. 1992 Rhif 666.

² Rheoliadau 1992, rheoliad 1. Mae hysbysebion sy'n perthyn i'r categori hwn yn cyfeirio at eitemau sy'n dderbyniol fel arfer, gan gynnwys hysbysebion y tu mewn i adeiladau, deunydd hyrwyddo ar beiriannau gwerthu ac arwyddion traffig.

³ Rheoliadau 1992, rheoliad 6, sy'n rhoi caniatâd tybiedig ar gyfer hysbysebion sy'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau a restrir yn Atodlen 3, gan gynnwys platiau pres y tu allan i feddygfeydd, byrddau gwerthwyr tai ac arwyddion ffasiâu siopau.

⁴ Rheoliadau 1992, rhan 3. Ymhlith yr hysbysebion sy'n perthyn i'r categori hwn mae paneli posteri, arwyddion mewn gorsafoedd petrol a delwriaethau ceir, ac arwyddion ar adeiladau sy'n fwy na 4.6m uwchben lefel y ddaear.

⁵ Roedd y Rheoliadau yn gymwys yng Nghymru a Lloegr yn wreiddiol; fe'u disodlwyd gan reoliadau newydd yn Lloegr 10 mlynedd yn ôl (gweler Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Lloegr) 2007, Rhif 783).

CYSYNIADAU SYLFAENOL

Diffinio “hysbyseb”

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid gwneud y diffiniad o “hysbyseb” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn fwy eglur a’i gynnwys yn y Cod ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy’n ymwneud â hysbysebu (Cwestiwn 14-1 o’r Ymgynghoriad).

- 14.5 Mae adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi diffiniad eang o “hysbyseb”. Mae’n golygu “any word, letter, model, sign, placard, board, notice, awning, blind, device or representation, whether illuminated or not, in the nature of, and employed wholly or partly for the purposes of, advertisement, announcement or direction”. Mae hefyd yn cynnwys “any hoarding or similar structure used or designed, or adapted for use, and anything else principally used, or designed or adapted principally for use, for the display of advertisements”.
- 14.6 Mae’r diffiniad yn y Ddeddf yn gymwys hefyd at ddibenion dehongli Rheoliadau 1992. Mae’r Rheoliadau hefyd yn rhoi diffiniad, sy’n *hepgor* “anything employed wholly as a memorial or as a railway signal”.⁶
- 14.7 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod y diffiniad yn y Ddeddf i ryw raddau yn un cylchol. Mae’n canolbwyntio ar y dull ffisegol sy’n cael ei ddefnyddio i gyflwyno’r neges, yn hytrach na natur y neges ei hun.⁷ Awgrymwyd gennym y dylai’r Ddeddf gynnwys un diffiniad o “hysbyseb”, a fyddai hefyd yn gymwys i’r dehongliad o’r Rheoliadau, ar hyd y llinellau canlynol

ystyr “hysbyseb” yw unrhyw arwydd, hysbyslen, bwrdd, hysbysiad, hysbysfwrdd, cysgodlen, llen neu wrthrych neu strwythur arall, p’un a yw wedi’i oleuo ai peidio:

- a gynlluniwyd neu a addaswyd i’w ddefnyddio at ddibenion cyhoeddiad, cyhoedduswydd neu gyfarwyddyd, ac
- a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n rhannol at y cyfryw ddiben;

ond nid yw’n cynnwys cofeb (gan gynnwys cofeb angladdol) na signal rheilffordd.⁸

- 14.8 Roedd pob un o’r 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i’r cynnig hwn yn cytuno ag ef. Awgrymodd CBS Castell-nedd Port Talbot “[it would] reduce misinterpretation from the public, advertisers and planning authorities”. Nododd Pwyllgor Rheoli Cymdeithas Genedlaethol Gorfodi Cynllunio (“NAPE”) hefyd fod “advertisements have moved on somewhat from 1992” ac awgrymodd y gallai diffiniad wedi’i ddiweddarau fod yn ddefnyddiol felly.
- 14.9 Mynegodd ymgynghoreion bryder y byddai gwneud y diffiniad arfaethedig yn fwy eglur yn arwain at beidio â chynnwys y dulliau hysbysebu mwy technolegol. Nododd yr

⁶ Rheoliadau 1992, rheoliad 2.

⁷ Papur Ymgynghori, paragraffau 14.13 i 14.15.

⁸ Papur Ymgynghori, paragraffau 14.16, 14.17.

Ymddiriedolaeth Theatrau “[that] advertisements on buildings use light projections are becoming more frequent as is the use of audio” a phwysleisiodd “[it is] important that the definition covers these types of advertisements”. Rydym yn cytuno, er ein bod yn nodi bod y diwydiant hysbysebu yn datblygu’n barhaus ac y gallai diffiniad mwy cyffredinol fod yn fwy defnyddiol nag un sy’n ceisio cynnwys mathau penodol o hysbyseb.

Argymhelliad 14-1.

Argymhellwn y dylid gwneud y diffiniad o “hysbyseb” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn fwy eglur a’i gynnwys yn y Bil ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy’n ymwneud â hysbysebu.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid hepgor y cyfeiriad at arddangos hysbysebion sydd wedi’i gynnwys ar hyn o bryd yn y diffiniad statudol o “hysbyseb” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Cwestiwn 14-2 o’r Ymgynghoriad).

- 14.10 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori nad oes unrhyw ddiffiniad o’r term “arddangos hysbysebion”. Yng ngoleuni’r drafodaeth uchod ynghylch Argymhelliad 14-1, ac yn enwedig o gofio bod y diwydiant hysbysebu yn datblygu o hyd a’i bod yn anodd, felly, benderfynu ar ddiffiniad boddhaol o’r term, awgrymwyd gennym fod cyfeiriad penodol at y term “arddangos” yn ddi-fudd. Felly, gwnaethom gynnig y dylid dileu’r cyfeiriad ato.⁹
- 14.11 Fel gyda Chwestiwn 14-1, roedd pob un o’r 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i’r cynnig hwn o’i blaid. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr “[that] ‘display’ is inherent in the nature and purpose of an advertisement ... and can therefore be omitted”.

Argymhelliad 14-2.

Argymhellwn y dylid hepgor y cyfeiriad at arddangos hysbysebion sydd wedi’i gynnwys ar hyn o bryd yn y diffiniad statudol o “hysbyseb” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Diffiniadau: safle lle mae hysbysebion yn cael eu harddangos

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid defnyddio’r gair “tir” yn lle “safle” a “safleoedd”, yn narpariaethau’r Bil sy’n ymwneud â rheoli hysbysebion ac yn y Rheoliadau pan gânt eu diweddarau nesaf (Cwestiwn 14-3 o’r Ymgynghoriad).

- 14.12 Mae’r ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â hysbysebion yn cyfeirio at y man lle y mae hysbyseb i’w chael. Mae Rheoliadau 1992 yn cyfeirio at y “site” y mae’n cael ei harddangos arno ac yn ei ddiffinio fel “any land or building, other than an

⁹ Papur Ymgynghori, para 14.19.

advertisement, on which an advertisement is displayed”.¹⁰ Mae adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn diffinio tir fel “any corporeal hereditament, including a building, and...any interest in or right over land”.

- 14.13 Awgrymwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori fod y ffaith bod dau derm yn bodoli, sef “site” a “land”, yn arwain at ansicrwydd ychwanegol a chymhlethdod diangen.¹¹ Nodwyd gennym nad oedd unrhyw enghraifft yn y Ddeddf na’r Rheoliadau lle na ellid defnyddio’r gair “land” yn lle “site”. Felly, awgrymwyd gennym y dylai cyfeiriadau at y term “site” gael eu disodli gan “land”.
- 14.14 Roedd pob un o’r 32 o ymgynghoreion a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yn cytuno â’n cynnig i integreiddio’r ddau derm. Nododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol “[that] section 336 of the Act succinctly defines the word ‘land’ and it potentially will avoid confusion if there is simply one word used, with one definition”.
- 14.15 Mynegodd 10 ymgynghorai (awdurdodau cynllunio yn bennaf), er eu bod yn cytuno â’r cynnig mewn egwyddor, bryder ynghylch p’un a allai’r diffiniad gwmpasu dulliau newydd o hysbysebu fel pelydrau chwilolau. Nododd Allan Archer, am nad yw’r dulliau hyn o hysbysebu yn digwydd ar y tir, nad ydynt yn cyd-fynd yn hwylus â’r diffiniad, sy’n creu problemau o ran agweddau eraill ar y ddeddfwriaeth.
- 14.16 Rydym yn deall y rheswm dros bryder o’r fath. Fodd bynnag, mae’n rhaid i’r weithred o arddangos hysbysebion, er mwyn iddi gael ei chwmpasu gan y Rheoliadau, gynnwys tir (neu adeilad) rywbryd. Ac mae’r diffiniad o “site”, a allai ar yr olwg gyntaf ymddangos yn derm ehangach na “land”, wedi’i ddrafftio mewn gwirionedd drwy gyfeirio at “land or building”.
- 14.17 Roedd yr hysbysebion chwilolau yn achos *Great Yarmouth* yn cael eu taflunio gan uned y gellid ei symud ond a oedd wedi’i lleoli ar y pryd ar do gwastad canolfan bingo a difyrion.¹² Ac yn *Wadham Stringer (Fareham) Ltd v Borough of Fareham*, roedd balw’n a oedd yn arddangos hysbyseb wedi’i glymu wrth gerbyd llonydd ar flaengwrt ystafell arddangos ceir. Yn y ddau achos hyn dyfarnodd y llysoedd fod yr hysbysebion yn cael eu harddangos ar y tir a’u bod, felly, o fewn cwmpas y Rheoliadau.¹³
- 14.18 Credwn o hyd y byddai’n ddefnyddiol dileu’r term “safle” yn y Ddeddf a’r Rheoliadau. Fodd bynnag, yn ein barn ni, er mwyn lleihau’r problemau a achosir gan ddulliau newydd o hysbysebu, byddai’n ddefnyddiol i’r cyfeiriadau statudol perthnasol gael eu drafftio, lle y bo’n briodol, drwy gyfeirio at hysbysebion yn cael eu harddangos “ar neu wrth dir”, yn hytrach na dim ond ar dir. Felly, y cyfeiriad yn adran 220(2)(a) fyddai “the land on or at which advertisements may be displayed and the manner in which they may be displayed to it”. Ac Amod Safonol 4 yn Atodlen 1 i Reoliadau 1992 fyddai “no

¹⁰ Rheoliadau 1992, rheoliad 2(1).

¹¹ Papur Ymgynghori, para 14.22.

¹² Mae “sign” yn cynnwys pelydryn difocws o olau sy’n pwyntio i’r awyr (*Newport BC v Secretary of State; Great Yarmouth BC v Secretary of State* (1997) 74 P&CR 147 ar dud 155).

¹³ Mae hysbysebion ar neu ynghlwm wrth falwau heb eu clymu neu awyrennau yn ddarostyngedig i Ddeddf Hedfan Sifil 1982, a 82, a Rheoliadau Hedfan Sifil (Hysbysebu o’r Awyr) 1995. Fel arfer, mae hysbysebion ar gerbydau y tu allan i gwmpas Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a’r rheoliadau a wnaed o dan y ddeddf honno (gweler **paragraffau 14.39 i 14.46**).

advertisement is to be displayed without the permission of the owner of the land on or at which it is displayed or of any person with an interest in that land entitled to grant permission”.

Argymhelliad 14-3.

Argymhellwn y dylai'r gair “safle” gael ei ddefnyddio yn lle “tir”:

- (1) yn narpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â rheoli hysbysebion;
- (2) yn y Rheoliadau pan gânt eu diweddarau nesaf;

y dylai'r Bil a'r Rheoliadau, lle y bo'n briodol, gael eu drafftio drwy gyfeirio at hysbysebion yn cael eu harddangos “ar neu wrth dir”.

Diffiniadau: y person sy'n arddangos hysbyseb

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai diffiniad o “person displaying an advertisement” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei gynnwys yn y Cod ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy'n ymwneud â hysbysebu, i gynnwys (1) perchennog a deiliaid y tir y mae'r hysbyseb yn cael ei harddangos arno. (2) unrhyw berson y mae'r hysbyseb yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei faterion eraill; a (3) y person sy'n ymgymryd ag arddangos yr hysbyseb neu sy'n sicrhau bod yr hysbyseb yn parhau i gael ei harddangos (Cwestiwn 14-4 o'r Ymgynghoriad).

14.19 Mae adran 224(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu y tybir bod person yn arddangos hysbyseb (a'i fod, felly, yn atebol am unrhyw achos o dorri'r Rheoliadau):

- 1) os mai ef yw perchennog neu deiliad y tir y mae'r hysbyseb yn cael ei harddangos arno; neu
- 2) os yw'r hysbyseb yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei faterion eraill.

14.20 Mae Rheoliad 2(3)(b) o Reoliadau 1992 yn rhoi diffiniad anghynhwysfawr ehangach, sydd hefyd yn cynnwys “the person who undertakes or maintains the display of the advertisement”.

14.21 Awgrymwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori y dylid cynnwys y contractwr hysbysebu o fewn y diffiniad statudol am mai ef fydd yn bennaf cyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth fel arfer. Felly, awgrymwyd gennym y dylid cyfuno'r ddau ddiffiniad i greu un diffiniad, i'w gynnwys yn y Ddeddf, ond yn seiliedig ar y diffiniad yn y Rheoliadau.¹⁴

14.22 O'r 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd 31 yn cytuno ag ef, gyda'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn nodi “the definition provided in the

¹⁴ Papur Ymgynghori, paragraffau 14.27 i 14.29.

Regulations is more robust and encapsulates all relevant interested parties”. Hefyd, pwysleisiodd yr Arolygiaeth Gynllunio “[the] need for consistency in defining a person displaying an advertisement” and suggested that it was “logical to include the person who undertakes or maintains the display of the advertisement in the definition”.

- 14.23 Roedd dau ymgynghorai, sef Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol a Sirius Planning, yn anghytuno â’r cynnig. Ond dadleuodd y ddau na ddylid ystyried yn awtomatig bod perchennog a deiliad y tir “[is a] person displaying an advertisement for the purposes of the definition”. Awgrymodd y Gymdeithas ei bod yn bosibl na fydd gan y perchennog fawr ddim rheolaeth dros “the terms of the tenancy or other occupation ... and may perhaps be as anxious as the planning authority to have an advertisement removed”.
- 14.24 Rydym yn cytuno y dylid rhoi sylw i faterion sy’n ymwneud â rheolaeth wirioneddol wrth ystyried p’un a ddylid erlyn person am arddangos hysbyseb heb ganiatâd ai peidio. Fodd bynnag, mae adran 224 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 eisoes yn rhoi lle i ystyried materion o’r fath, am ei bod yn darparu amddiffyniad i erlyniad “[if a person is able to] show that the advertisement was displayed without his knowledge and that he took all reasonable steps to prevent the display or, after the advertisement had been displayed, to secure its removal”.¹⁵
- 14.25 Felly, yn ein barn ni, nid oes angen eu dileu o gwmpas y diffiniad yn gyfan gwbl.

Argymhelliad 14-4.

Argymhellwn y dylai diffiniad o “person displaying an advertisement” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei gynnwys yn y Bil ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy’n ymwneud â hysbysebu, i gynnwys:

- (1) **perchennog a deiliad y tir y mae’r hysbyseb yn cael ei harddangos arno;**
- (2) **unrhyw berson y mae’r hysbyseb yn rhoi cyhoeddusrwydd i’w nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei faterion eraill;**
- (3) **y person sy’n ymgymryd ag arddangos yr hysbyseb neu sy’n sicrhau eu bod yn parhau i gael eu harddangos.**

CANIATÂD AR GYFER HYSBYSEBION

Caniatâd tybiedig

- 14.26 Ar gyfer hysbysebion sy’n perthyn i’r categorïau o hysbysebu a ragnodir yn y 14 o Ddosbarthiadau yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992, tybir bod caniatâd wedi’i roi. Fodd bynnag, os bydd awdurdod cynllunio am ddiddymu caniatâd o’r fath, gall gyflwyno hysbysiadau dirwyn i ben, sy’n diddymu caniatâd tybiedig ar gyfer arddangos hysbysebion penodol ac sy’n mynnu bod hysbyseb benodol sy’n cael ei harddangos

¹⁵ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 224(5), (6).

yn cael ei thynnu neu na chaiff safle ei ddefnyddio mwyach ar gyfer arddangos hysbyseb o'r fath.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai hysbysiad dirwyn i ben o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion: (1) cynnwys hysbysiad ynglŷn â hawliau unrhyw dderbynnydd i apelio yn ei erbyn; (2) dod i rym ar ddyddiad penodol a nodir ynddo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodedig o'r dyddiad cyflwyno); a (3) cael ei gyhoeddi (yn hytrach na'i gyflwyno fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), gyda chopi yn cael ei gyflwyno i bawb y tybir eu bod yn arddangos yr hysbyseb dan sylw (Cwestiwn 14-5 o'r Ymgynghoriad).

- 14.27 O dan Reoliadau 1992 mae'n ofynnol i hysbysiad dirwyn i ben nodi'r hysbyseb neu'r safle y mae'n ymwneud ag ef/hi, cyfnod pan ellir parhau i arddangos yr hysbyseb a'r rhesymau pam mae camau wedi'u cymryd.¹⁶ Ond nid yw'n ofynnol i'r hysbysiad nodi hawl y derbynnydd i apelio yn ei erbyn – sy'n hepgoriad a ddisgrifiwyd yn y llysoedd fel "curious".¹⁷ Awgrymwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y dylid unioni'r hepgoriad hwn.¹⁸
- 14.28 Mae'n rhaid i hysbysiad dirwyn i ben nodi'r cyfnod y daw i rym ar ei ddiwedd – gan ddechrau ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad.¹⁹ Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y gallai hyn achosi problemau os caiff hysbysiad ei gyflwyno i fwy nag un person, ac awgrymwyd gennym y dylid diwygio'r Rheoliadau i ddarparu ar gyfer cyhoeddi hysbysiad, gyda chopïau yn cael eu cyflwyno, pob un yn dod i rym ar y dyddiad penodol a nodir ynddo²⁰
- 14.29 Cafwyd 31 o ymatebion i'r cynnig hwn yn ein Papur Ymgynghori. Roedd pob un yn cytuno ag ef. Nododd yr Arolygiaeth Gynllunio "[it would provide clarity for all parties...would remove uncertainty and avoid prejudice". Dadleuodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol hefyd ei bod yn "logical to bring this procedure in line with the process relating to enforcement notices".

¹⁶ Rheoliadau 1992, rheoliad 8(2).

¹⁷ Gan yr Uchel Lys yn *Swishbrook Ltd v Secretary of State for the Environment* [1989] JPL 137, a gadarnhawyd yn y Llys Apêl yn [1990] JPL 824.

¹⁸ Papur Ymgynghori, para 14.35.

¹⁹ Rheoliadau 1992, rheoliad 8(3).

²⁰ Gwnaed newid tebyg i'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau gorfodi, gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynllunio (Diwygio) 1981; gweler *Nahlis v Secretary of State* [1995] 3 PLR 95.

Argymhelliad 14-5.

Argymhellwn y dylai hysbysiad dirwyn i ben o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion:

- (1) cynnwys hysbysiad ynglŷn â hawliau unrhyw dderbynydd i apelio yn ei erbyn;
- (2) dod i rym ar ddyddiad penodol a nodir ynddo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodedig o'r dyddiad cyflwyno);
- (3) cael ei gyhoeddi (yn hytrach na'i gyflwyno fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), gyda chopi yn cael ei gyflwyno i bawb y tybir eu bod yn arddangos yr hysbyseb dan sylw.

Pwerau i wneud rheoliadau ynglŷn â hysbysebion

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai adran 220(2), (2A) a (3) gael ei disodli gan ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu gwneud sy'n darparu ar gyfer y materion sy'n ymwneud â hysbysebion a all gael eu rheoli gan reoliadau (Cwestiwn 14-6 o'r Ymgynghoriad).

- 14.30 Mae'r Rheoliadau ynglŷn ag arddangos hysbysebion yn bwysicach, yn ymarferol, na'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Papur Ymgynghori, mae'r pwerau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o'r fath ymhell o fod yn foddhaol. Yn benodol, mae adran 220(2)(c) yn galluogi'r Gweinidogion i wneud darpariaeth o ran caniatâd penodol, drwy gymhwyso gwahanol ddarpariaethau yn y Ddeddf yn amodol ar y cyfryw addasiadau a newidiadau ag y gellir eu rhagnodi yn y Rheoliadau. Ar y llaw arall, mae adran 220(2A) ond yn galluogi'r Gweinidogion i wneud rheoliadau ynglŷn â gwahanol gategoriâu o faterion, heb fod angen gwneud hynny drwy addasu'r Ddeddf.
- 14.31 Awgrymwyd gennym yn y Papur Ymgynghori fod y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn adran 220(2A) yn symlach.²¹ Byddai mabwysiadu'r dull hwn o weithredu yn gwneud y darpariaethau galluogi yn y Ddeddf ychydig yn hirach, ond yn gliriach; a'r Rheoliadau yn llawer cliriach, ond yn fyrrach. Ac nid oes ond angen i'r darpariaethau galluogi hynny gyfeirio at y mathau o ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys, mewn gwirionedd, mewn rheoliadau a wnaed ers 1948.
- 14.32 Roedd pob un o'r 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn yn cytuno ag ef. Nododd yr Arolygiaeth Gynllunio: "Whilst the enabling provisions in the Act might be longer, it would facilitate a more straightforward approach and allow the Regulations to be shorter and clearer to the benefit of all".

²¹ Papur Ymgynghori, para 14.46.

Argymhelliad 14-6.

Argymhellwn y dylai adran 220(2), (2A) a (3) gael ei disodli gan ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu gwneud sy'n darparu ar gyfer:

- (1) mesuriadau, golwg a lleoliad hysbysebion y gellir eu harddangos, a'r ffordd y dylid eu cysylltu â'r tir;
- (2) gwahardd arddangos hysbysebion neu ddefnyddio tir i arddangos hysbysebion heb ganiatâd tybiedig neu ganiatâd penodol;
- (3) dirwyn caniatâd tybiedig i ben;
- (4) gwneud penderfyniadau am ganiatâd penodol a phenderfynu arnynt, a diddymu neu addasu caniatâd;
- (5) apeliadau yn erbyn hysbysiadau dirwyn i ben a phenderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd penodol;
- (6) ardaloedd lle mae hysbysebu yn ddarostyngedig i reolaethau arbennig;
- (7) darpariaethau canlyniadol ac atodol.

Gorgyffwrdd â chaniatâd cynllunio

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid rhoi caniatâd tybiedig o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion i arddangos hysbysebion sydd wedi cael caniatâd cynllunio (Cwestiwn 14-7 o'r Ymgynghoriad).

- 14.33 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y bydd nifer fach o achosion lle y rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer prosiect adeiladu sy'n cynnwys, o reidrwydd, elfen o hysbysebu. Awgrymwyd gennym, o dan yr amgylchiadau hynny, na ddylai fod angen cael cydsyniad hysbysebion hefyd.²²
- 14.34 Un enghraifft a nodwyd gennym yw codi blaen siop newydd sy'n cynnwys arwydd ffasgia – er y byddai gan arwydd o'r fath, mewn llawer o achosion, ganiatâd tybiedig eisoes o dan Ddosbarth 4B (os yw wedi'i oleuo), neu Ddosbarth 5 mewn achosion eraill. Ond gallai cynnig datblygu gynnwys, er enghraifft, banel hysbysebion, yr ystyrir p'un a yw'n ddymunol ai peidio wrth benderfynu ar y cais cynllunio.
- 14.35 At hynny, fel y nodwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, mae nifer gynyddol o strwythurau mawr a gynlluniwyd yn benodol, neu o leiaf yn bennaf, i arddangos hysbysebion – er enghraifft, wrth ymyl traffyrdd mewn ardaloedd trefol. Ni fyddai strwythur o'r fath yn cael caniatâd tybiedig o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion; a gellir dadlau y byddai'n fwy priodol ei asesu fel prosiect datblygu yn hytrach nag fel "hysbyseb" yn unig.

²² Papur Ymgynghori, para 14.55.

- 14.36 O'r 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 31 yn cytuno â'r cynnig, gyda'r Arolygiaeth Gynllunio yn nodi "[it would] streamline the system" a "help simplify the situation". Roedd yr Ymddiriedolaeth Theatrau hefyd yn cytuno â'r cynnig, gan awgrymu y byddai'n symleiddio'r "... planning process and reduce costs for applicants by removing unnecessary duplication".
- 14.37 Mynegodd tri ymgynghorai, a oedd yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor, bryder ynghylch cwmpas y gyfundrefn caniatâd tybiedig arfaethedig. Awgrymodd Pwyllgor Rheoli Cymdeithas Genedlaethol Gorfodi Cynllunio fod angen diffinio o dan ba amgylchiadau y byddai caniatâd tybiedig sy'n deillio o ganiatâd cynllunio yn codi. Fodd bynnag, dim ond ar sail darluniau a deunydd arall y bydd caniatâd cynllunio wedi'i roi ac elfen hysbysebu'r cynllun a ddangosir ar y darluniau hynny a fyddai'n cael y caniatâd tybiedig arfaethedig.
- 14.38 Rydym yn amau mai anaml y byddai angen y cyfryw ddsbarth o ganiatâd tybiedig, pe câi ei gyflwyno; ond byddai'n dileu mân orgyffwrdd rhwng rheolaethau.

Argymhelliad 14-7.

Argymhellwn y dylid rhoi caniatâd tybiedig o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion ar gyfer arddangos hysbysebion sydd wedi cael caniatâd cynllunio.

Hysbysebion ar gerbydau ac ynddynt

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynnwys arddangos hysbysebion ar gerbydau statudol ac ôl-gerbydau o fewn rheolaeth gan y Rheoliadau sy'n cael eu diwygio er mwyn darparu: (1) na fydd angen caniatâd (penodol na thybiedig) i arddangos hysbyseb y tu mewn i gerbyd ar gyfer nac ar y tu allan i gerbyd ar briffordd gyhoeddus; a (2) y rhoddir caniatâd tybiedig i arddangos hysbyseb ar gerbyd, ar yr amod bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel arfer fel cerbyd symudol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio yn bennaf i arddangos hysbysebion (Cwestiwn 14-8 o'r Ymgynghoriad).

- 14.39 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori mai un categori o arddangos sy'n achosi problemau yw hysbysebion ar gerbydau ac ynddynt. Ar hyn o bryd, nid oes angen cael caniatâd ar gyfer hysbyseb sy'n cael ei harddangos ar gerbyd; ac mae'r Rheoliadau yn cadarnhau hyn y tu hwnt i bob amheuaeth drwy ddarparu nad oes angen caniatâd – penodol na thybiedig – i arddangos hysbyseb, ar yr amod bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel cerbyd symudol fel arfer ac nad yw'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i arddangos hysbysebion.²³
- 14.40 Bwriedir i hyn ganiatáu hysbysebu ar ffurf posteri papur ar y tu allan i fysiau neu dacsis neu'r tu mewn iddynt ac i enw'r gweithredwr a chelfwaith hyrwyddol arall gael eu harddangos ar gerbydau masnachol yn gyffredinol.

²³ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, Atodlen 2, Dosbarth C.

- 14.41 Fodd bynnag, mae'r un ddarpariaeth hefyd yn caniatáu hysbysebu ar gerbydau ac ôl-gerbydau llonydd mewn meysydd ger prif ffordd a rheilffyrdd, a all amharu ar amwynder mewn ardaloedd gwledig, ar yr amod y gellir gyrru neu dynnu'r cerbyd neu'r ôl-gerbyd ar y tir neu oddi arno. Cadarnhawyd hyn gan y Llys Adrannol yn *Calderdale MBC v Windy Bank Dairy Farm Ltd and Quinn*.²⁴
- 14.42 Awgrymwyd gennym mai un ffordd o osgoi problem hysbysebion blêr y golwg ar gerbydau wedi'u parcio fyddai diwygio'r Rheoliadau er mwyn darparu y byddai angen cael caniatâd, ond y rhoddid caniatâd tybiedig, i arddangos hysbyseb ar gerbyd pan nad yw ar briffordd.
- 14.43 Byddai hyn yn golygu yn y rhan fwyaf o achosion y gellid parhau i arddangos hysbysebion o'r fath heb fod angen gwneud cais i'r awdurdod cynllunio am ganiatâd penodol o dan y Rheoliadau. Fodd bynnag, gallai awdurdod cynllunio gyhoeddi hysbysiad dirwyn i ben mewn perthynas â defnyddio darn penodol o dir i arddangos hysbysebion o'r fath, a fyddai'n rhoi terfyn ar arddangos yr hysbysebion (yn amodol ar hawl i apelio i Weinidogion Cymru).
- 14.44 Pe bai problem yn parhau, gallai'r awdurdod geisio cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru yn tynnu'r caniatâd tybiedig yn ôl yn gyfan gwbl – naill ai mewn perthynas â darn penodol o dir neu dros ardal helaethach.²⁵
- 14.45 O'r 32 o ymgynghoreion a ymatebodd, roedd pob un yn cytuno â'r egwyddor sy'n sail i'r diwygiad arfaethedig hwn, sy'n ceisio ymdrin â phroblem hirsefydlog dra hysbys. Fodd bynnag, cyfeiriodd Cymdeithas y Cyfreithwyr, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a CBS Torfaen at broblemau a allai gael eu hachosi gan hysbysebion ar gerbydau wedi'u parcio am gyfnod hir ar y briffordd (gan gynnwys cilfachau, llwybrau troed a lleiniau glas).
- 14.46 Rydym wedi addasu ein hargymhellion yn unol â hynny; ac yn ddiaw, caiff y geiriad manwl ei ystyried ymhellach y tro nesaf y caiff Rheoliadau 1992 eu diweddarau neu eu disodli gan reoliadau newydd.

²⁴ [2010] EWHC 2929 (Gweinyddol), [2011] JPL 754.

²⁵ Papur Ymgynghori, paragraffau 14.60, 14.63.

Argymhelliad 14-8.

Argymhellwn y dylid cynnwys arddangos hysbysebion ar gerbydau statudol ac ôl-gerbydau o fewn rheolaeth gan y Rheoliadau sy'n cael eu diwygio er mwyn darparu:

- (1) **nad oes angen cael caniatâd (penodol na thybiedig) i arddangos hysbyseb**
 - **y tu mewn i gerbyd, nac**
 - **ar y tu allan i gerbyd ar briffordd gyhoeddus, heblaw un nad yw'n symud am fwy nag 21 diwrnod;**
- (2) **y rhoddir caniatâd tybiedig i arddangos hysbyseb ar y tu allan i gerbyd nad yw ar briffordd, ar yr amod bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel arfer fel cerbyd symudol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio yn bennaf i arddangos hysbysebion.**

Angen am ganiatâd

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid gwneud y canlynol:(1) cyflwyno darpariaeth yn y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion er mwyn ei gwneud yn bosibl i dystysgrif cyfreithlondeb gael ei chyhoeddi mewn perthynas ag arddangos hysbysebion; a (2) cynnwys darpariaeth alluogi briodol yn y Bil, yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd yng Nghwestiwn 14-6 o'r Ymgynghoriad (Cwestiwn 14-9 o'r Ymgynghoriad).

- 14.47 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y gall fod cryn ansicrwydd ynghylch p'un a oes angen caniatâd i arddangos hysbysebion penodol, ac yn arbennig ynghylch p'un a yw'r hysbyseb yn perthyn i un neu fwy o'r dosbarthiadau a ddylai gael caniatâd tybiedig. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i natur gweithgarwch hysbysebu modern sy'n newid o hyd, sy'n golygu nad yw bob amser yn glir a yw dulliau newydd o hysbysebu o fewn dosbarth o'r fath. Mae'n bosibl ceisio barn anffurfiol gan yr awdurdod perthnasol. Fodd bynnag, ni fydd barn o'r fath, o reidrwydd, yn ei rwymo os cymerir camau gorfodi wedyn, sy'n affodus iawn o gofio bod arddangos hysbysebion heb ganiatâd yn drosedd.
- 14.48 Awgrymwyd gennym, felly, y byddai'n symlach pe bai system, yn debyg i'r un sy'n rheoli ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb datblygiad (tystysgrifau CLEUD neu CLOPUD),²⁶ lle y gall unrhyw un geisio penderfyniad cyfrwymol ynghylch cyfreithlondeb hysbysebion sy'n cael eu harddangos neu y bwriedir eu harddangos – hynny yw, ynghylch a yw'n gyfystyr (neu, petaent yn cael eu harddangos, a fyddai'n gyfystyr) â throsedd o dan adran 224 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Byddai dystysgrif o'r fath, os caiff ei chyhoeddi, wedyn yn atal yr awdurdod rhag dwyn achos cyfreithiol.²⁷
- 14.49 Cafwyd 30 o ymatebion i'r awgrym hwn. Roedd 18 yn cytuno ag ef, gan gynnwys chwe awdurdod cynllunio, yr Arolygiaeth Gynllunio, Cymdeithas y Cyfreithwyr, PEBA

²⁶ Gweler **paragraffau 7.64 i 7.72.**

²⁷ Papur Ymgynghori, paragraffau 14.64, 14.69.

a Phwyllgor Rheoli Cymdeithas Genedlaethol Gorfodi Cynllunio (“NAPE”). Nododd NAPE:

This is a particular area of control where uncertainty currently exists. Developers/public will contact the LPA asking whether or not permission is needed for the display of an advertisement, but there is no formal mechanism available to give an ‘answer’. This is left to informal opinion by an officer outside of an application process.... A certificate route would reduce uncertainty and, given the fact prosecution could be pursued for an offending advertisement, is important. Whilst it could be argued that it produces another layer it would give LPA certainty and a fee for those applications which it otherwise would not get when giving general feedback.

14.50 O ran y goblygiadau i adnoddau, awgrymodd CBS Blaenau Gwent nad oedd yn disgwyl i hyn arwain at lawer o geisiadau; nododd CBS Rhondda Cynon Taf fod:

the procedure for applying for certificates of lawfulness generates comparatively few applications as a proportion of the total planning related applications to the Council, therefore the resource implications are unlikely to be significant.

14.51 Roedd 12 o ymgynghoreion (gan gynnwys wyth awdurdod cynllunio, POSW a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol) yn anghytuno â'r cynnig, yn bennaf am ei fod yn ychwanegu ffrwd arall at y broses, gan ei gwneud yn fwy cymhleth.

14.52 Credwn o hyd ei bod yn bwysig sicrhau bod proses syml ar waith er mwyn i unrhyw un allu cael gwybod a oes angen cael caniatâd. Derbyniwn y byddai hyn yn golygu gweithdrefn ychwanegol i awdurdodau cynllunio, ond unwaith y bydd ansicrwydd wedi codi mae angen ei ddatrys rywsut. Mae gweithdrefn tystysgrifau yn llawer gwell na dibynnu ar farn anffurfiol gan swyddog; ac ni ddylai gymryd llawer mwy o amser. Ac ni fyddai'n well caniatáu i'r mater gael ei ddatrys yn y llys ynadon ychwaith.

14.53 Os dadleuir ei bod yn ddrutach cyhoeddi tystysgrif na rhoi barn anffurfiol, mae'n debyg mai'r rheswm dros hyn yw y bydd y swyddog yn ystyried y mater yn llai gofalus os mai dim ond barn anffurfiol y mae'n ei chynnig – sy'n ategu i gryn raddau yr achos dros weithdrefn fwy ffurfiol, sy'n arwain at dystysgrif y gall yr ymgeisydd yn bendant ddibynnu arni. Sut bynnag, rydym ninnau hefyd o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd llawer o geisiadau am dystysgrifau o dan y weithdrefn arfaethedig; ac, wrth gwrs, byddai'r awdurdod yn gallu codi ffi am gais o'r fath, rhywbeth na all ei wneud am ateb ymholiad anffurfiol

Argymhelliad 14-9.

Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:

- (1) cyflwyno darpariaeth yn y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion i'w gwneud yn bosibl i dystysgrif cyfreithlondeb gael ei chyhoeddi mewn perthynas ag arddangos hysbysebion;
- (2) cynnwys darpariaeth alluogi briodol yn y Bil, yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd yn Argymhelliad 14-6.

TORRI RHEOLAETH HYSBYSEBION

14.54 Mae tair system i ymdrin â hysbysebion sy'n cael eu harddangos heb awdurdod, sef:

- 1) rhoddir caniatâd tybiedig ar gyfer hysbysebion sydd wedi cael eu defnyddio ers blynyddoedd lawer;
- 2) efallai y bydd awdurdod cynllunio yn gallu tynnu'r hysbysebion sy'n cael eu harddangos; neu
- 3) gall erlyn y rhai sy'n gyfrifol.

Caniatâd tybiedig ar gyfer hysbysebion sydd wedi cael eu harddangos ers blynyddoedd lawer

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid diwygio Dosbarth 13 yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992 er mwyn darparu y rhoddir caniatâd tybiedig i arddangos hysbysebion ar safle sydd wedi cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw ers 10 mlynedd, yn hytrach na thrwy gyfeirio ar ddyddiad penodedig (1 Ebrill 1974 ar hyn o bryd) (Cwestiwn 14-10 o'r Ymgynghoriad).

14.55 Mae'r system gyntaf o'r tair system uchod yn unioni hysbysebion sy'n cael eu harddangos a ddylai fod wedi bod yn destun caniatâd penodol rai blynyddoedd yn ôl, ond nad oeddent – heb fod angen i'r awdurdod cynllunio na'r hysbysebwr gymryd unrhyw gamau. Gall yr awdurdod cynllunio sy'n cyflwyno hysbysiad dirwyn i ben dynnu'r caniatâd tybiedig a roddir gan Ddosbarth 13 yn ôl ond, tan hynny, gall yr hysbysebwr fod yn sicr na chaiff ei erlyn. Bu'r system hon ar waith ers cryn amser; y cwestiwn yw, yn syml, pa mor hir y dylai'r cyfnod perthnasol fod.

14.56 Tan 1987, câi caniatâd tybiedig ei roi ar gyfer hysbyseb (yng Nghymru neu Lloegr) a oedd wedi bod yn ei lle ers 1 Awst 1948. Wedyn cafodd y dyddiad torbwynt ei symud ymlaen i 1 Ebrill 1974 – er mwyn adlewyrchu dyddiad ad-drefnu llywodraeth leol, fe ymddengys. Wedyn gwnaeth Rheoliadau 2007 (yn Lloegr)²⁸ ddileu'r cyfeiriad at ddyddiad penodedig a rhoi cyfnod treigl o ddeng mlynedd yn ei le, gan adlewyrchu'r cyfnod treigl sy'n gymwys i fathau eraill o ddarpariaethau gorfodi cynllunio, y mae

²⁸ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli hysbysebion) (Lloegr) (O.S. 2007/783).

gwaith datblygu heb awdurdod yn rhydd rhag camau gorfodi am bedair neu 10 mlynedd oddi tanynt.²⁹

- 14.57 Awgrymwyd gennym y byddai cyfnod treigl o 10 mlynedd yn fwy priodol na chyfeiriad at ddyddiad penodedig, y mae'n anochel y byddai'n cilio i'r gorffennol.
- 14.58 O'r 30 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd 29 yn cytuno ag ef. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr ei fod yn "sensible 'future-proofing'", a'i fod yn gyson â darpariaethau gorfodi eraill. Awgrymodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol:

this is a logical approach to take and we welcome the proposed change. The current fixed date of 1 April 1974 has lost all relevance, simply due to the passage of time. The ten-year approach fits well with other current timescales within the legislation.

- 14.59 Dim ond un ymgynghorai, sef CBS Torfaen, a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig. Dadleuodd y gallai nifer yr hysbysebion a osodir heb ganiatâd olygu y gallai rhoi caniatâd tybiedig ar gyfer y rhain achosi problemau. Er iddo nodi y gellid cyflwyno hysbysiadau dirwyn i ben, gallai hyn olygu bod angen defnyddio mwy o adnoddau.
- 14.60 Rydym yn dal i fod yn argyhoeddedig fod cyfnod o 10 mlynedd yn ymddangos yn ddigonol i'w gwneud yn bosibl i gamau gael eu cymryd. Yn wir, hyd yn oed ar ôl i'r cyfnod ddod i ben, mae'n bosibl cyflwyno hysbysiad dirwyn i ben er mwyn dod â'r caniatâd tybiedig i ben o hyd – a gellir apelio yn erbyn camau o'r fath, ond nid oes unrhyw hawl awtomatig i gael iawndal.

Argymhelliad 14-10.

Argymhellwn y dylid diwygio Dosbarth 13 yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992 er mwyn darparu y rhoddir caniatâd tybiedig i arddangos hysbysebion ar neu wrth dir sydd wedi cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw ers 10 mlynedd.

Tynnu hysbysebion heb awdurdod

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid ailddatgan y pŵer (a geir yn adran 224 ar hyn o bryd) i Weinidogion Cymru gynnwys yn y Rheoliadau ddarpariaethau tebyg i'r rhai sy'n rheoli hysbysiadau gorfodi yn y Cod (Cwestiwn 14-11 o'r Ymgynghoriad).

- 14.61 Nodwyd gennym, yn y rhan fwyaf o achosion lle y caiff hysbysebion eu harddangos heb ganiatâd, fod tynnu'r hysbysebion tramgwyddus yn bwysicach i'r awdurdodau cynllunio na chosbi'r rhai sy'n gyfrifol.
- 14.62 Mae adran 224 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (yn gyffredin â phob deddf a'i rhagflaenodd) yn darparu y gall rheoliadau gymhwyso darpariaethau gorfodi cyffredinol y Ddeddf at y gwaith o reoli hysbysebion, er mwyn galluogi awdurdod cynllunio i gyhoeddi hysbysiad gorfodi er mwyn sicrhau y caiff unrhyw hysbysebion

²⁹ Pedair blynedd am waith adeiladu heb awdurdod, 10 mlynedd am newid defnydd neu dorri amodau heb awdurdod.

heb awdurdod eu tynnu.³⁰ Fodd bynnag, nid yw'r un o'r rheoliadau hyn sy'n gymwys yng Nghymru neu Loegr ers 1948 wedi cynnwys gweithdrefn o'r fath; mae gweithdrefnau eraill, a ystyrir isod, wedi'u defnyddio yn lle hynny. Awgrymwyd gennym nad oes angen y weithdrefn hon, ac nad oes angen ailddatgan y pwerau galluogi yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y Cod.

- 14.63 O'r 30 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r awgrym hwn, roedd 26 yn cytuno ag ef. Mynegodd Allan Archer gefnogaeth i'r awgrym am fod y ddarpariaeth yn debygol o fod yn anarferedig o hyd, a hynny am fod cynnig 14-12 (isod) yn gwneud awgrymiadau ynglŷn â'r pwerau amgen y gellir eu defnyddio. Dywedodd CBS Rhondda Cynon Taf hefyd ei fod yn "helpful simplification of the powers of planning authorities" mewn perthynas â thynnu hysbysebion heb awdurdod.
- 14.64 Roedd dau awdurdod cynllunio a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru yn anghytuno â'r cynnig, am eu bod o'r farn y byddai'n rhoi'r baich ar awdurdodau i dynnu arwyddion annerbyniol, er mai'r troseddwr ddylai fod yn gyfrifol am eu tynnu.
- 14.65 Rydym o'r farn, yn achos hysbysebion mwy o faint neu fwy gwerthfawr (megis hysbysfyrddau electronig), fod y bygythiad y bydd yr awdurdod yn cymryd camau i'w tynnu yn debygol o achosi i'r hysbysebwr gymryd y camau angenrheidiol ei hun. Yn achos hysbysebion llai cymhleth, nid yw'n debygol y bydd gorchymyn gan yr awdurdod i'r hysbysebwr gymryd camau yn cael unrhyw effaith, gyda'r hysbyseb heb awdurdod yn aros yn ei lle am byth. Felly, credwn o hyd mai'r unig bwerau sy'n debygol o fod o ddefnydd ymarferol yw'r rhai sy'n galluogi awdurdod i gymryd camau uniongyrchol a'r rhai sy'n ei alluogi i erlyn – yr ydym yn ystyried y ddau ohonynt isod.
- 14.66 Felly, mae'n debygol na fydd llawer o werth defnyddio pwerau gorfodi, fel y rhagwelir gan adran 224(1) a (2), ac nid ydym yn synnu nad oes unrhyw reoliadau erioed wedi'u gwneud er mwyn rhoi pwerau o'r fath ar waith.

Argymhelliad 14-11.

Argymhellwn na ddylid ailddatgan y pŵer (a geir yn adran 224(1) (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) i Weinidogion Cymru gynnwys yn y Rheoliadau ddarpariaethau tebyg i'r rhai sy'n rheoli hysbysiadau gorfodi yn y Bil.

³⁰ Papur Ymgynghori, para 14.76.

Tynnu hysbysebion

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r pwerau a geir yn adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adran 43 o Ddeddf Dyfed 1987 ar hyn o bryd, gael eu disodli gan un weithdrefn newydd sy'n caniatáu i unrhyw hysbysebion heb awdurdod gael eu tynnu, ar yr amod: (1) na chaiff unrhyw hysbyseb ei thynnu heb roi rhybudd i'r rhai sy'n gyfrifol yn gyntaf; (2) bod hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad ar gael; (3) bod iawndal yn daladwy am ddifrod a achoswyd drwy dynnu'r hysbyseb; a (4) y caiff ymgymerwyr statudol eu diogelu (Cwestiwn 14-12 o'r Ymgynghoriad).

- 14.67 Ar hyn o bryd, mae adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i unrhyw awdurdod cynllunio "remove or obliterate placards and posters". Ond nid yw'n caniatáu i hysbysfyrddau na strwythurau eraill y mae'r posteri neu'r hysbyslenni wedi'u gosod arnynt gael eu tynnu.
- 14.68 Mae adran 43 o Ddeddf Dyfed 1987 yn darparu pwerau ychwanegol i awdurdodau cynllunio mewn ardaloedd rheolaeth arbennig ac ardaloedd cadwraeth yn hen sir Dyfed (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro bellach).³¹ Mewn ardaloedd o'r fath, gall yr awdurdod dynnu unrhyw hysbysebion heb awdurdod, ac eithrio poster neu hysbyslen (a gwmpesir gan adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).
- 14.69 Disgrifiwyd y gweithdrefnau hyn yn y Papur Ymgynghori, ynghyd ag adran 225A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sydd ond yn gymwys yn Lloegr ac sy'n caniatáu i awdurdod cynllunio symud unrhyw strwythur a ddefnyddir i arddangos hysbysebion nad ydynt wedi cael caniatâd o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion.³² Nodwyd gennym ei bod yn amlwg bod angen i awdurdodau cynllunio allu tynnu hysbysebion heb awdurdod. Ond mae'r pwerau presennol sydd ar gael yn y rhan fwyaf o Gymru, heblaw rhannau o Orllewin Cymru, wedi'u cyfyngu i dynnu (neu ddileu) posteri a hysbyslenni – nid ydynt yn ei gwneud yn bosibl i'r strwythurau a ddefnyddir i'w harddangos gael eu symud. Ar y llaw arall, yng Ngorllewin Cymru a Lloegr, mae'n bosibl tynnu unrhyw "hysbyseb" heb awdurdod – yn ystyr ehangaf y term hwnnw.
- 14.70 Felly, awgrymwyd gennym y dylai'r darpariaethau presennol yn adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adran 43 o Ddeddf Dyfed 1987 gael eu disodli gan un weithdrefn sy'n caniatáu i **unrhyw** hysbyseb sy'n cael ei harddangos heb ganiatâd neu'n groes i amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd gael ei thynnu neu ei dileu, yn amodol ar ddarpariaethau ynglŷn â hysbysladau, hawliau i apelio, iawndal a diogelu ymgymerwyr statudol.
- 14.71 O blith yr 28 o ymgyngoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, nododd un gymuned ei bod yn anghytuno ag ef, heb roi unrhyw resymau; roedd pob un o'r ymatebwyr eraill yn cytuno ag ef.
- 14.72 Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr sail apelio ychwanegol yn erbyn hysbysiad o'r fath, sef y dylid rhoi caniatâd ar gyfer yr hysbyseb dramgwyddus sy'n cael ei

³¹ Crëwyd sir Dyfed ar 1 Ebrill 1974, drwy uno Sir Aberteifi, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Fe'i diddymwyd ar 1 Ebrill 1996.

³² Papur Ymgynghori, paragraffau 14.75, 14.82.

harddangos (sy'n cyfateb i apêl ar sail (a) yn erbyn hysbysiad gorfodi).³³ Yn y Papur Ymgynghori awgrymwyd gennym, fel gyda'r weithdrefn bresennol o dan adran 225A yn Lloegr, y dylai'r apêl gael ei chyflwyno i'r llysoedd ynadon a bod wedi'i chyfyngu i seiliau technegol (sy'n ymwneud yn bennaf â chyfreithlondeb arddangos yr hysbyseb, a chyflwyno'r hysbysiad). Gan y byddai apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio, yn cynnwys o bosibl sail ychwanegol fel yr awgrymwyd, yn debygol o gael ei defnyddio fel ffordd o atal yr hysbyseb rhag cael ei thynnu.

- 14.73 Awgrymodd dau awdurdod y byddai'r cynnig i fynnu bod cyfnod o 21 diwrnod wedi mynd heibio cyn cymryd camau yn aneffeithiol yn achos gosod poster i'n anghyfreithlon. Rydym yn cydnabod bod angen gweithredu'n gyflym mewn rhai achosion ac rydym o'r farn y byddai'n bosibl caniatáu cyfnod byrrach o ddau ddiwrnod, dyweder, yn achos poster a hysbyslenni, ac 21 diwrnod mewn achosion eraill – gan gadw, i bob pwrpas, nodweddion y cyfundrefnau presennol – ar y sail bod tynnu neu ddileu poster yn gofyn am ymateb cyflym, ac y gall yr hysbysebwr osod poster arall yn ei le os yw'n briodol, tra bod symud bwrdd poster yn weithrediad mwy sylweddol.
- 14.74 Nododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol hefyd fod gweithdrefn adran 225 yn gymharol gyflym a'i bod yn sicrhau canlyniad cadarnhaol, fel arfer, heb fawr ddim gwaith papur, tra byddai'r weithdrefn newydd yn hirach, gyda hawl i apelio.
- 14.75 Nododd CBS Torfaen y byddai angen pwerau priodol i alluogi awdurdodau cynllunio i fynd ar dir.
- 14.76 O ailystyried, yn hytrach nag un weithdrefn fel y cynigiwyd yn y Papur Ymgynghori, rydym o'r farn y byddai'n symlach:
- 1) ailddatgan yn y Bil, heb eu diwygio, y darpariaethau a geir yn adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, sy'n caniatáu i bosteri a hysbyslenni heb awdurdod gael eu tynnu neu eu dileu (heb unrhyw hawl i apelio),
 - 2) cyflwyno ochr yn ochr â hwy weithdrefn newydd sy'n cyfateb i'r un sydd ar gael o dan Ddeddf Dyfed (ac o dan adran 225A yn Lloegr) er mwyn caniatáu i hysbysebion eraill heb awdurdod gael eu tynnu, gyda hawl i apelio i'r llys ynadon.
- 14.77 Rydym wedi llunio ein hargymhelliad yn unol â hynny.
- 14.78 O ran goblygiadau'r cynnig hwn i adnoddau, byddai'r pŵer newydd i dynnu hysbysebion yn gwbl ddisgresiynol. At hynny, mae'r bygythiad y caiff hysbysfwrdd heb awdurdod ei symud ynddo'i hun yn debygol o beri i'r hysbysebwr ei symud mewn llawer o achosion. Felly, mae'n debyg na châi'r weithdrefn newydd ei ddefnyddio ryw llawer yn ymarferol – fel y byddai'n golygu bod awdurdod yn tynnu hysbysebion, yn hytrach na dim ond bygwth gwneud hynny. Felly, yn ein barn ni, ni fyddai goblygiadau mawr o ran adnoddau.

³³ Gweler **paragraffau 12.88 i 12.96**.

Argymhelliad 14-12.

Argymhellwn y dylai'r pwerau a geir yn adran 43 o Ddeddf Dyfed 1987 ar hyn o bryd (tynnu hysbysebion heb awdurdod eraill) gael eu disodli gan weithdrefn newydd, sy'n gymwys i bob rhan o Gymru, ac sy'n caniatáu i unrhyw hysbyseb heb awdurdod heblaw poster neu hysbyslen, gael ei thynnu, ar yr amod:

- (1) **na chaiff unrhyw hysbyseb ei thynnu na'i dileu heb roi 21 diwrnod o rybudd yn gyntaf i'r rhai sy'n gyfrifol;**
- (2) **bod hawl i apelio ar gael i dderbynwyr hysbysiad o'r fath a pherchenogion a deiliaid safle'r hysbyseb dramgwyddus – ar seiliau sy'n ymwneud â chyfreithlondeb yr hysbyseb, cyflwyno'r hysbysiad a'r cyfnod ar gyfer ei thynnu;**
- (3) **bod iawndal yn daladwy gan yr awdurdod cynllunio am ddifrod a achoswyd i dir neu eiddo drwy dynnu'r hysbyseb (heblaw difrod i'r hysbyseb ei hun); a**
- (4) **y rhoddir diogelwch i ymgymrwyr statudol sy'n debyg i'r diogelwch a roddir iddynt gan adran 225K o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).**

Erlyn

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynyddu'r ddeddfyd fwyaf yn dilyn collfarn am hysbysebu heb awdurdod i ddirwy ddirwydd (Cwestiwn 14-13 o'r Ymgynghoriad).

- 14.79 Mae'r sawl sy'n arddangos hysbysebion heb y caniatâd angenrheidiol yn cyflawni trosedd o dan adran 224(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y gellir ei chosbi â dirwy yn dilyn collfarn ddiannod. Awgrymwyd gennym yn y Papur Ymgynghori fod y pŵer i erlyn – yn hytrach na dim ond cymryd camau gorfodi – yn bodoli oherwydd y ffaith ei bod yn hawdd gosod hysbysebion, y manteision ariannol sylweddol sy'n dod i'r rhai sy'n gyfrifol³⁴ a'r gost i awdurdodau cynllunio sy'n gysylltiedig â'u tynnu.
- 14.80 Fodd bynnag, nodwyd gennym fod lefel y dirwyon a osodir o ganlyniad i erlyniadau am hysbysebu heb awdurdod wedi amrywio'n sylweddol ers iddynt gael eu cyflwyno o dan a 32(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 – o isafbwynt o tua £350 (yn ôl gwerthoedd heddiw), ychydig cyn i'r raddfa safonol gael ei chyflwyno, hyd at £3,730, ac i lawr i £2,500 heddiw.³⁵ Ac mae 25 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r gorchymyn diwethaf gael ei wneud i gynyddu'r ddirwy ar bob lefel ar y raddfa safonol ac, felly, mae'r ddirwy uchaf yn debygol o barhau i ostwng mewn termau real.³⁶
- 14.81 Gellir cymharu hyn â'r cosbau am droseddau eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – sef gwneud gwaith heb awdurdod ar adeilad rhestredig a chwympo coeden warchoddedig – a arferai fod yn ddirwy o hyd at £20,000 yn dilyn collfarn

³⁴ Papur Ymgynghori, para 14.75, troednodyn 43

³⁵ Papur Ymgynghori, para 14.86.

³⁶ Papur Ymgynghori, para 14.86.

ddiannod a dirwy ddiderfyn ar dditiad.³⁷ Ers 2015, y gosb ym mhob achos yw dirwy ddiderfyn, naill ai yn dilyn collfarn ddiannod neu ar dditiad.³⁸

14.82 Felly, cynigiwyd gennym, ar gyfer troseddau yn y dyfodol, y dylai'r ddirwy uchaf gael ei disodli gan ddirwy ddiderfyn. Awgrymwyd gennym y byddai hyn yn fwy priodol, yn enwedig ar gyfer troseddau a gyflawnwyd gan ddiffynyddion corfforaethol.

14.83 O'r 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd 31 yn cytuno ag ef, heb wneud sylwadau pellach ar y cyfan. Noddodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol:

excessive time and resources are used to take prosecution proceedings, with the result being a small fine. This proposal will potentially deter larger companies from undertaking unauthorised advertising. For some companies the displaying of unauthorised advertisements is lucrative. The additional income raised normally far exceeds any current maximum fine given.

14.84 Roedd Huw Williams (Geldards LLP) hefyd yn cytuno "[that] the penalties should be consistent with other planning enforcement crimes".

14.85 Roedd dau ymgynghorai yn anghytuno â'r cynnig. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Theatrau a'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd y gallai cynyddu'r ddedfryd bosibl ar gyfer collfarnau o'r farn arwain at osod dirwyon anghymesur. Awgrymodd y cyntaf fod "many instances of unauthorised advertising are undertaken unknowingly, particularly where they relate to community and voluntary groups", ac y dylid cadw rhywfaint o ddisgresiwn ar gyfer troseddwy'r fath.

14.86 Rydym yn cytuno, mewn rhai achosion, mai anwybodaeth o'r gyfraith sy'n gyfrifol am y ffaith fod hysbysebion yn cael eu harddangos heb awdurdod, yn enwedig yn achos unigolion neu grwpiau cymunedol. Ond anaml y byddai'n fuddiol i awdurdod ddwyn achos cyfreithiol mewn achos o'r fath. Sut bynnag, caiff y ddirwy a osodir mewn gwirionedd mewn unrhyw achos penodol ei phennu yn unol ag egwyddorion dedfrydu troseddol arferol, sy'n galluogi'r llys i ystyried holl amgylchiadau'r achos penodol.

Argymhelliad 14-13.

Argymhellwn y dylid cynyddu'r ddedfryd fwyaf yn dilyn collfarn am arddangos hysbysebion heb awdurdod ar y dyddiad y deddfwyd y Bil neu ar ôl hynny i ddirwy ddiderfyn.

Y sail bolisi dros gymryd camau yn erbyn hysbysebion heb awdurdod

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid nodi'n glir ar wyneb y Bil, yn hytrach nag yn y Rheoliadau (fel ar hyn o bryd), y dylai'r holl bwerau statudol sy'n ymwneud â

³⁷ Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, a 9(4); Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 210(2).

³⁸ Rheoliadau Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 (Dirwyon yn dilyn Collfarn Ddiannod) 2015 (O.S. 664), Atodlen 4, paragraffau 18, 19.

hysbysebu gael eu harfer er mwyn amwynder a diogelwch y cyhoedd (Cwestiwn 14-14 o'r Ymgynghoriad).

- 14.87 Mae rheoliad 4 o Reoliadau 1992 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod cynllunio sy'n arfer ei bwerau o dan y Rheoliadau wneud hynny dim ond er mwyn amwynder a diogelwch y cyhoedd, gan ystyried unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau. Ond nid yw hynny'n gymwys i swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – gan gynnwys, yn arbennig, swyddogaethau sy'n ymwneud â gorfodi rheolaethau yn erbyn arwyddion heb awdurdod.³⁹
- 14.88 Awgrymwyd gennym, yn ymarferol, fod swyddogaethau sy'n ymwneud â hysbysebion, gan gynnwys erlyniadau o dan adran 224 a thynnu hysbysebion heb awdurdod o dan adran 225, ond yn cael eu harfer fel rheol mewn amgylchiadau lle maent yn angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud ag amwynder a diogelwch y cyhoedd. Ac nid ymddengys ei bod yn briodol i awdurdod ddwyn achos cyfreithiol mewn mân achosion technegol o dorri rheolaethau.
- 14.89 Awgrymwyd gennym felly y dylid symud y gofyniad i awdurdodau cynllunio arfer eu swyddogaethau er mwyn amwynder a diogelwch y cyhoedd o is-ddeddfwriaeth i'r Ddeddf, fel y byddai'n rheoli'r holl swyddogaethau perthnasol, gan gynnwys camau gweithredu yn erbyn hysbysebu heb awdurdod.
- 14.90 Roedd pob un o'r 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn yn cytuno ag ef, heb wneud sylwadau pellach ar y cyfan. Awgrymodd Huw Williams "[the proposal would be a] useful clarification and restatement of the current position".

Argymhelliad 14-14.

Argymhellwn y dylid nodi'n glir ar wyneb y Bil, yn hytrach nag yn y Rheoliadau (fel ar hyn o bryd), y dylai'r holl bwerau statudol sy'n ymwneud â hysbysebu gael eu harfer er mwyn amwynder a diogelwch y cyhoedd.

DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

- 14.91 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd tri maes o'r gyfraith a oedd yn rhannol neu'n gwbl anarferedig ac awgrymwyd na ddylid eu cynnwys yn y Cod. Roedd ein cynigion fel y'u nodir isod.

Pwyllgorau cynghori a thriwlysoedd

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid cynnwys y darpariaethau yn adran 220 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â phwyllgorau cynghori a thriwlysoedd yn y Cod (Cwestiwn 14-15 o'r Ymgynghoriad).

- 14.92 Mae adran 220(2)(d) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu y gall rheoliadau ynglŷn â hysbysebion ddarparu i bwyllgorau cynghori arbennig a

³⁹ *Kingsley v Hammersmith and Fulham LBC* (1991) 62 P&CR 589 ar dud 592; gweler y Papur Ymgynghori, paragraffau 14.91 i 14.93.

thribiwnlysoedd annibynnol benderfynu ar apeliadau yn lle Gweinidogion Cymru.⁴⁰ Nodwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori nad oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath erioed wedi'i gwneud, yng Nghymru neu Loegr, yn ystod y 70 o flynyddoedd ers iddi ymddangos gyntaf.⁴¹ Felly, cynigiwyd gennym y dylid dileu'r ddarpariaeth.⁴²

- 14.93 Roedd pob un o'r 29 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn yn cytuno ag ef, bron bob un ohonynt heb wneud sylwadau. Nododd yr Arolygiaeth Gynllunio:

In view of the role administered by the Planning Inspectorate on behalf of the Welsh Ministers there would appear to be no need for provision to be made for special advisory committees or independent tribunals.

Argymhelliad 14-15.

Argymhellwn na ddylid cynnwys y darpariaethau yn adran 220 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â phwyllgorau cynghori a thribiwnlysoedd) yn y Bil.

Ardaloedd arbrofol

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid cynnwys y darpariaethau yn adran 221(1)(b), (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud ag ardaloedd arbrofol yn y Cod (Cwestiwn 14-16 o'r Ymgynghoriad).

- 14.94 Mae adran 222(1)(b) yn darparu y gall rheoliadau ynglŷn â hysbysebion wneud darpariaeth arbennig ar gyfer rhoi caniatâd tybiedig i arddangos hysbysebion mewn "experimental areas". Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym mai dim ond un "ardal arbrofol" o'r fath a oedd wedi'i dynodi, am gyfnod o ddwy flynedd rhwng 1987 a 1989.⁴³ Ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, ni chafodd yr ardal ei hadnewyddu ac, felly, tynnwyd y dosbarth perthnasol o ganiatâd tybiedig yn ôl. Ers hynny, nid yw adran 221(1)(b) wedi cael ei defnyddio. Felly, awgrymwyd gennym na ddylid ei hailddatgan yn y Cod.
- 14.95 O'r 29 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd 28 yn cytuno ag ef, gyda'r Arolygiaeth Gynllunio yn awgrymu "[there was no] need or justification for them", a Huw Williams (Geldards) yn disgrifio'r ddarpariaeth fel "falling into desuetude".
- 14.96 Roedd Accessible Retail yn gwrthwynebu'r argymhelliad, gan ddadlau ei fod yn ddefnyddiol cael system lle y gellir rhoi cynnig ar syniadau newydd. Gallwn weld mantais hyn mewn egwyddor, ond rydym o'r farn ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r pŵer hwn byth yn cael ei ddefnyddio yn ymarferol.

⁴⁰ Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 220(2)(d), (4).

⁴¹ Noder ei bod wedi'i nodi'n wreiddiol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, a 31(1)(e), (2).

⁴² Papur Ymgynghori, para 14.96.

⁴³ Roedd yr ardal yn Swydd Gaint: gweler y Papur Ymgynghori, para 14.99.

Argymhelliad 14-16.

Argymhellwn na ddylid cynnwys y darpariaethau yn adran 221(1)(b), (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud ag ardaloedd arbrofol yn y Bil.

lawndal am dynnu hysbysebion

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid cynnwys adran 223 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n darparu ar gyfer talu costau tynnu hysbysebion ar safleoedd a oedd yn cael eu defnyddio i hysbysebu yn 1948, yn y Cod (Cwestiwn 14-17 o'r Ymgynghoriad).

- 14.97 Fel arfer, nid yw iawndal yn daladwy pan nad yw safle yn cael ei ddefnyddio mwyach i hysbysebu, neu pan fydd yn rhaid tynnu hysbyseb benodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y gall fod yn bosibl hawlio symiau bach iawn o iawndal mewn achosion penodol, os oedd y safle dan sylw yn cael ei ddefnyddio i hysbysebu ar 1 Awst 1948, neu os oedd yr hysbyseb benodol yn cael ei harddangos ar y dyddiad hwnnw, o dan adran 223 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.⁴⁴ Yn y naill achos neu'r llall, nid yw'n bwysig beth ddigwyddodd yn y blynyddoedd rhwng 1948 a'r dyddiad y cafodd yr hysbyseb ei thynnu neu y rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r safle i hysbysebu.
- 14.98 At hynny, dim ond swm bach iawn o iawndal y gellir ei hawlio. Mae wedi'i gyfyngu i dreuliau yr aed iddynt yn rhesymol wrth ddod â'r gweithgarwch hysbysebu i ben (neu dynnu'r hysbyseb, yn ôl y digwydd).⁴⁵ Nid yw'n ymestyn, yn benodol, i golli incwm o ddefnyddio'r safle at ddibenion hysbysebu – a all, yn achos safle amlwg, fod yn sylweddol. Ni fu unrhyw iawndal am golled o'r fath o dan y Rheoliadau erioed.
- 14.99 Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd gennym mai prin yw'r ceisiadau am iawndal sy'n cael eu gwneud bellach o dan adran 223, os oes unrhyw rai.⁴⁶ Felly, roeddem o'r farn, dros dro, nad oes angen ei ailddatgan yn y Bil.
- 14.100 O'r 30 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd 29 yn cytuno ag ef, heb wneud sylwadau ar y cyfan., Roedd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cytuno ag ef mewn egwyddor, ond mynegodd bryder "it may be seen as prejudice if the right to make a claim was no longer available".
- 14.101 Fodd bynnag, ni fwriadwyd i'r hawl i gael iawndal o dan y ddarpariaeth hon ond diogelu perchenogion tir a oedd yn arddangos hysbysebion yn 1948, pan ddaeth y system reoli bresennol i fodolaeth. Ymddengys fod cadw'r hawl hon tua 70 o flynyddoedd yn ddiweddarach yn anghyson.

⁴⁴ Arwyddocâd y dyddiad hwnnw yw mai'r dyna'r adeg y daeth rheoliadau ynglŷn â hysbysebion i rym am y tro cyntaf yng Nghymru (a Lloegr).

⁴⁵ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 223(1).

⁴⁶ Papur Ymgynghori, paragraffau 14.102 i 14.103.

Argymhelliad 14-17.

Argymhellwn na ddylid cynnwys adran 223 o Ddeddf Cynllunio Gwlad 1990, sy'n darparu ar gyfer talu iawndal mewn perthynas â chostau tynnu hysbysebion ar safleoedd a oedd yn cael eu defnyddio i hysbysebu yn 1948, yn y Bil.